## Crynodeb gweithredol

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y rheoliadau drafft ar gyfer Cynllun Pensiwn Barnwrol (JPS) 2022 a fydd yn diwygio'r trefniadau pensiynau barnwrol presennol.

2. Bydd JPS 2022 yn agored i bob deiliad swydd farnwrol cymwys cyflogedig neu rai y telir ffi iddynt o 2022. Byddai deiliaid swyddi barnwrol cyflogedig a rhai y telir ffi Iddynt sydd mewn swyddi pan fydd y cynllun yn dechrau, ac sy'n gymwys i gael pensiwn barnwrol, yn ymuno â'r cynllun diwygiedig yn awtomatig mewn perthynas â gwasanaeth yn y swydd honno yn y dyfodol oni bai eu bod yn penderfynu optio allan o'r cynllun.

3. Bydd y swyddi barnwrol datganoledig hynny yng Ngogledd Iwerddon sy'n gymwys ar hyn o bryd i ymuno â Chynllun Pensiwn Barnwrol Gogledd Iwerddon (NI JPS) hefyd yn gymwys i ymuno â JPS 2022, ar yr amod bod Cynulliad Gogledd Iwerddon yn pasio cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

4. Barnwyr sydd â threfniadau pensiwn o dan y Ddeddf Pensiynau Barnwrol ac Oedran Ymddeol (JUPRA) 1993[1] neu'r cynllun cyfatebol i'r rhai y telir ffi iddynt, sef Cynllun Pensiwn Barnwrol lle Telir Ffioedd (FPJPS) 2017, a'r rhai sy'n aelodau o gynllun 2015, bydd y Cynllun Pensiwn Barnwrol Newydd (NJPS)[2] yn trosglwyddo i JPS 2022 ac yn cronni buddiannau oddi tano. O'r dyddiad y bydd yn cael ei weithredu, sydd wedi'i gynllunio ar hyn o bryd ar gyfer 1 Ebrill 2022, JPS 2022 fydd yr unig gynllun lle gall barnwyr gronni buddiannau, a bydd pob cynllun pensiwn barnwrol arall yn cael ei rewi o ran cronni yn y dyfodol. Bydd yr holl fuddiannau a gronnwyd eisoes mewn cynlluniau blaenorol yn cael eu diogelu, gan gynnwys cadw'r lwmp swm awtomatig a'r cysylltiad â'r cyflog terfynol mewn perthynas â gwasanaeth yn y cynlluniau hynny.

5. Bydd JPS 2022 yn cael ei sefydlu drwy reoliadau a wnaed o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus (PSPA) 2013 ac felly bydd yn ddarostyngedig i fframwaith statudol PSPA. Bydd hyn yn sicrhau bod JPS 2022 yn ddarostyngedig i'r rheolau pensiwn a'r gofynion llywodraethu diweddaraf a ddaeth i rym gan y PSPA ar gyfer y rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus. Er mwyn gallu creu JPS 2022 a chau cynlluniau pensiwn barnwrol cyn 2022 yn y dyfodol, rydym hefyd yn ceisio diwygio'r PSPA drwy Fil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol. Ar adeg yr ymgynghoriad mae'r Bil hwn wrthi'n cael ei ystyried gan y Senedd.

6. Ceir crynodeb isod o nodweddion allweddol JPS 2022 a'r darpariaethau ymddeol sydd yn y rheoliadau.

## Nodweddion allweddol y JPS 2022

- **Statws treth:** Bydd JPS 2022 yn gynllun nad yw wedi'i gofrestru ar gyfer treth sy'n golygu nad yw buddiannau a gronnwyd yn y cynllun yn cyfrif naill ai tuag at y lwfans blynyddol na therfynau'r lwfans oes. Mae hyn o fudd sylweddol i farnwyr, yn enwedig y rhai sydd eisoes wedi cronni pensiwn mewn cynlluniau cofrestredig

[1] Pan fydd y ddogfen hon yn cyfeirio at 'JUPRA', mae'r diffiniad hwn yn cynnwys pob cynllun cyn-JUPRA yn ogystal â chynllun 1993.

[2] Mae cyfeiriadau at y Cynllun Pensiwn Barnwrol Newydd (NJPS) drwy gydol y ddogfen ymgynghori yn cynnwys Cynllun Pensiwn Barnwrol Gogledd Iwerddon (NI JPS).

cyn ymuno â'r farnwriaeth. Mae JUPRA/FPJPS yn gynlluniau nad ydynt wedi'u cofrestru ar gyfer treth, tra bod NJPS yn gynllun cofrestredig.

- **Cyfraniadau aelodau**: Bydd JPS 2022 yn cyflwyno cyfradd cyfraniad unffurf o 4.26%. Gall y barnwyr hynny sydd mewn gwasanaeth cyn i JPS 2022 ddod i rym, ddewis cyfradd cyfraniadau is o 3%, am dair blynedd, yn gyfnewid am ostyngiad cymesur yn eu cyfradd gronni o 2.5% i 2.42%. Mae hyn er mwyn caniatáu i farnwyr addasu i'r gyfradd gyfraniadau newydd, yn enwedig lle byddent yn wynebu gostyngiad mewn tâl clir o ganlyniad i gyflwyno JPS 2022.

- **Cyfradd gronnol:** Bydd aelodau'r cynllun yn 'bancio' swm o bensiwn ar gyfradd o 2.5% o'u henillion pensiynadwy ym mlwyddyn honno'r cynllun. Dyma'r un gyfradd gronni a gynigir yn JUPRA/FPJPS, ac sy'n uwch na NJPS, lle mae'r gyfradd yn 2.32%.

- **Cymudo lwmp swm:** Ni fydd JPS 2022 yn darparu lwmp swm awtomatig fel yr oedd ar gael yn JUPRA/FPJPS. Fodd bynnag, bydd gan aelodau'r cynllun yr opsiwn i 'gymudo' neu roi'r gorau i rywfaint o'u pensiwn yn gyfnewid am lwmp swm. Bydd aelodau'n cael ychwanegiad cymudo i wneud iawn am statws y cynllun nad yw wedi'i ei gofrestru ar gyfer treth.

- **Dim cap gwasanaeth**: Ni fydd JPS 2022 yn cyfyngu ar nifer y blynyddoedd y gall barnwr gronni gwasanaeth pensiynadwy ar ei gyfer. Mae hyn yn adlewyrchu NJPS ac yn wahanol i JUPRA/FPJPS, lle mai dim ond am 20 mlynedd y gall barnwr gronni gwasanaeth.

**Darpariaethau ymddeol**

- **Oedran y mae pensiwn yn daladwy:** Bydd yr oedran y daw pensiwn yn daladwy yn gysylltiedig ag oedran Pensiwn y Wladwriaeth aelodau'r cynllun. Mae hyn yn adlewyrchu NJPS ond mae'n wahanol i JUPRA/FPJPS lle gall aelod gymryd ei bensiwn yn 65 oed.

- **Cadw'r cysylltiad â'r cyflog terfynol:** Ar ôl trosglwyddo i JPS 2022, bydd unrhyw fuddion pensiwn sydd eisoes wedi'u hennill mewn Cynlluniau Cyn 2022 yn cael eu diogelu. Mae hyn yn cynnwys cadw'r cysylltiad â'r cyflog terfynol ar gyfer y barnwyr hynny sy'n trosglwyddo o gynlluniau cyflog terfynol (JUPRA/FPJPS).

- **Ymddeoliad cynnar a hwyr**: Bydd Aelodau'n gallu tynnu eu pensiwn cyn oedran pensiwn y cynllun, fel yn NJPS, ond bydd eu pensiwn yn destun gostyngiad ymddeol yn gynnar i adlewyrchu'r ffaith y bydd y pensiwn yn cael ei dalu am fwy o amser nag a fyddai pe bai'r unigolyn yn ymddeol ar oedran pensiwn y cynllun. Os bydd aelod yn ymddeol ar ôl oedran pensiwn y cynllun, bydd yn gymwys i gael ychwanegiad ymddeol yn hwyr i adlewyrchu'r ffaith y bydd y pensiwn yn cael ei dalu am gyfnod byrrach.

- **Ymddeoliad rhannol**: Bydd JPS 2022 yn caniatáu i farnwyr ymddeol yn rhannol drwy leihau eu horiau a chymryd y cyfan neu rywfaint o'r pensiwn y maent wedi'i gronni yn y swydd honno tra byddant yn parhau i weithio yn y swydd honno. Bydd

rheoliadau'r cynllun yn egluro'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i farnwr ymddeol yn rhannol yn JPS 2022 a'r NJPS.

7. Ceir rhagor o fanylion am nodweddion a rheolau'r cynllun yn rheoliadau drafft y cynllun sydd wedi'u hatodi i'r ymgynghoriad hwn.